PWYLLGOR PENODI - PRIF GYFREITHYDD CYFREITHIWR

DYDD MERCHER, 9 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Mackie, Weaver a/ac Williams |

1 : PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Chris Weaver yn Gadeirydd y Pwyllgor.

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau buddiannau yn y cyfarfod hwn.

4 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn: -

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

5 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i aelodau'r cyhoedd pe byddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod. -

Paragraff 12 – Gwybodaeth ynghylch ymgeisydd fydd yn dod yn gyflogai yn yr Awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth oedd yn debygol o ddatgelu hunaniaeth yr unigolyn.

6 : PENODI PRIF GYFREITHIWR YMGYFREITHA

Gwnaeth y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Prif Gyfreithiwr Ymgyfreitha gyfarfod i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Asesiadau Arwain a Thechnegol.

Wrth wneud ei benderfyniad, ystyriodd y Pwyllgor cais gwreiddiol yr ymgeisydd, sut wnaeth yr ymgeisydd sgorio yn erbyn cymwyseddau gofynnol y swydd a'r asesiad ysgrifenedig ar bob un o'r tasgau oedd yn trafod cryfderau a sgiliau'r ymgeisydd. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r ymgeisydd gael symud ymlaen i'r cam cyfweliad ffurfiol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr opsiynau pwnc gan osod cwestiynau am y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD – y byddai

1. Ymgeisydd 1 yn cael ei wahodd i gyfweliad;

2. yr ymgeisydd yn cael gwybod testun y cyflwyniad ac y caiff uchafswm o 10 munud ar gyfer hwnnw;

3. yn llunio'r cwestiynau terfynol ar gyfer y Pwyllgor cyfweld.

7 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses creu rhestr fer.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD IAU 17 IONAWR 2019 (10:00AM)

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Iau 17 Ionawr 2019 am 10:00am.